| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **23 Mehefin 2009** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. <u>Cefndir</u>

**1.1** Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, ynglŷn â honiadau yn erbyn aelodau.

## 2. <u>Crynodeb o'r Honiadau</u>

### 2.1 Cyfeirnod Ombwdsmon 200801843

Cyhuddir aelod o gyngor cymuned o ysgrifennu llythyr maleisus, difenwol, gwahaniaethol a ffeithiol anghywir at weinidog o Lywodraeth y Cynulliad. Roedd y llythyr yn benodol yn cyfeirio at fywyd personol yr achwynydd.

Adroddais y tro diwethaf fod yr Ombwdsmon wedi cwblhau ei ymchwiliad ac wedi cyfeirio'r mater at Banel Dyfarnu Cymru am benderfyniad. Cynhelir y gwrandawiad ar 26ain Mehefin ac fe adroddaf yn ôl ar y canlyniad.

### 2.2 Cyfeirnod Ombwdsmon 200802179

Mae clec cyngor tref wedi gwneud cwyn am ymddygiad aelod o'r cyngor tuag ati.

Nid yw'r sefyllfa wedi newid ers fy adroddiad diwethaf, sef nad yw'r Ombwdsmon eto wedi penderfynu os yw am ymchwilio i'r gŵyn.

### 2.3 Cyfeirnod Ombwdsmon 200802180

Mae cadeirydd cyngor tref wedi cwyno am ymddygiad aelod a'i gyhuddo o ddiffyg parch a bwlio.

Nid yw'r sefyllfa wedi newid ers fy adroddiad diwethaf, sef nad yw'r Ombwdsmon eto wedi penderfynu os yw am ymchwilio i'r gŵyn.

### 2.4 **Cyfeirnod Ombwdsmon 200802366**

Adroddais y tro diwethaf ar benderfyniad yr Ombwdsmon i beidio ymchwilio i'r honiad fod cynghorydd wedi anfon e-bost at yr achwynydd gan ddefnyddio gair anweddus wrth gyfeirio ato.

Ers hynny, apeliodd yr achwynydd wrth yr Ombwdsmon. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon ei benderfyniad gwreiddiol i beidio ymchwilio oherwydd nad oedd y toriad(au) potensial o'r cod ymddygiad, yn ei farn ef, yn ddigon difrifol i ddenu sancsiwn gan naill ai Bwyllgor Safonau Gwynedd neu gan Banel Dyfarnu Cymru. Dywedodd hefyd fod y ffeithiau yn hunanamlwg ac na fyddai ymchwiliad pellach yn arwain at fwy o eglurder. Serch hynny dywedodd y byddai'n ysgrifennu at y cynghorydd gan egluro nad oedd yr ymddygiad yn dderbyniol ac y byddai'n cael ei gadw mewn golwg pe bai unrhyw gŵyn arall yn codi yn y dyfodol.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.